

## Mae tocynnau ar gael yn amodol ar yr amodau a thelerau canlynol:

1. Ni chaniateir dod ag alcohol i'r maes.
2. Ni chaiff pobl ddod i'r digwyddiad os bydd stiwardiaid o'r farn bod rhywun dan ddyllanwad alcohol neu sylwedd anghyfreithlon.
3. Cynhelir y digwyddiad ar safle tir glas a gall y tir fod yn anwastad. Efallai y bydd ffyrdd a rampiau dros dro. Byddwch yn ofalus wrth gerdded ar y ffyrdd a'r rampiau hyn ac oddi arnynt neu wrth eu croesi mewn cadeiriau olwyn neu fygis.
4. Nid yw'r tocynnau'n caniatáu i chi ddychwelyd i'r maes unwaith eich bod wedi gadael drwy'r gatiau.
5. Rhaid i blant o dan 16 oed fod yng nghwmni oedolyn.
6. Ac eithrio pobl nad ydynt yn gallu symud llawer, dylech osgoi defnyddio cadeiriau oherwydd bod hyn yn atal pobl eraill rhag gweld. Os oes rhaid defnyddio cadeiriau, byddwch yn ystyriol o'u lleoliad.
7. O ran diogelwch, peidiwch â dod ag eitemau gwydr, tân gwyllt, ffyn gwreichion, canhwyllau na fflaglau wedi'u cynnau.
8. Efallai y bydd effeithiau mwg, goleuadau strôb, laserau a synau uchel yn cael eu defnyddio yn y digwyddiad.
9. Efallai y bydd gwriad diogelwch yn cael ei gynnal.
10. Cedwir yr hawl gan Ddinas a Sir Abertawe i wrthod mynediad i unrhyw berson, yn ôl ei ddisgresiwn, ac o dan amgylchiadau o'r fath ni roddir ad-daliad.
11. Mae gan Ddinas a Sir Abertawe yr hawl i newid manylion y digwyddiad.
12. Mae deiliaid tocynnau yn rhyddhau'r trefnwyr (Dinas a Sir Abertawe) o unrhyw atebolrwydd am golled neu ddifrod i eiddo personol a allai ddeillio o'r digwyddiad. Ac eithrio'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ni fydd unrhyw atebolrwydd ar y trefnwyr i ddeiliaid tocynnau.
13. Ni chaiff tocynnau eu gwerthu (gan gynnwys ocsiwn) na'u hysbysebu i'w gwerthu. Ni chaiff tocynnau eu defnyddio er mwyn hysbysebu, hyrwyddo, codi arian na dibenion marchnata (gan gynnwys cystadlaethau a swîps).
14. Dylai deiliaid tocynnau ddeall efallai yr effeithir ar drefniadau'r digwyddiad gan amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y trefnwyr, a allai olygu gohirio neu ganslo'r digwyddiad heb rybudd ac ni fydd y trefnwyr na'r LOCOG yn atebol i ddeiliaid tocynnau o ran gohirio neu ganslo o'r fath.
15. Os bydd rhaid canslo'r digwyddiad, gwneir pob ymdrech i aildrefnu'r digwyddiad ar ddyddiad arall. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni roddir ad-daliadau ar gyfer y dyddiad gwreiddiol. Os nad yw hi'n addas aildrefnu'r digwyddiad, bydd y lle y prynwyd y tocynnau'n ad-dalu'r gost i chi am eu gwerth enwol. Ni cheir ad-daliad am ffioedd archebu na chostau postio.
16. Mae deiliaid tocynnau'n rhoi caniatâd i'w ffilmio, i gael eu lluniau wedi tynnu a'u recordio ac yn deall efallai y gallai ffotograffau, ffilmiau neu recordiadau gael eu darlledu, eu cyhoeddi, eu trwyddedu neu eu defnyddio am byth (heb daliad).
17. Mae deiliaid tocynnau'n cytuno y bydd unrhyw ddelweddau, fideos neu recordiadau sain a geir yn y digwyddiad yn cael eu defnyddio at ddibenion preifat a domestig yn

unig ac ni allant gael eu defnyddio at unrhyw ddibenion masnachol, ar y rhyngwrwyd neu fel arall.

18. Ni all deiliaid tocynnau gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd y mae trefnwyr yn ystyried ei bod yn ymwneud â marchnata neu hysbysebu anawdurdodedig (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, marchnata unigol neu grŵp). Mae gan y trefnydd yr hawl i wrthod mynediad, neu ofyn i rywun adael y lleoliad os nad yw'n cydymffurfio â'r cyfyngiad hwn.